

Cofnodion o Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun
2 Chwefror 2026 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Jiwbili, Llangeitho
Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Monday,
2 February 2026 at 8.00 pm at Jiwbili Hall, Llangeitho

Presennol/Present

Cyng Gwilym Evans (Cadair/*Chair*), Gwenfair Owen, Myrddin James, Daniel Thomas, Ieuan Gwynne, Gerwyn Ebenezer, Rhian Turner, Dafydd Morse & Cyng Rhodri Evans (o 8.30 ymlaen)

Ymddiheuriadau/Apologies – Cyng/Cllr Beryl Evans, Sarah Evans, Paul Rooke, Emyr Jones & PCSO John Evans

Croesawodd y Cadeirydd pawb i gyfarfod mis Chwefror.

Adroddiad yr Heddlu / Police Report

Cylchredwyd adroddiad yr heddlu trwy e-bost cyn y cyfarfod / *The police report was circulated prior to the meeting.*

Datgan Diddordeb/Declaration of Interest – Neb / *No one*

Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of previous meeting

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf ar gynnig Cyng Ieuan Gwynne ac eiliwyd gan Cyng Gwenfair Owen

The minutes of the previous meeting were passed correct – proposed by Cllr Ieuan Gwynne & seconded by Cllr Gwenfair Owen.

Materion yn codi o'r cofnodion/Matters arising from minutes

- Dim wedi'u wneud am y cwyn am gyflwr y ffordd lawr am Pantyresgair, Penuwch, SY25 6RA a oedd wedi'u basio i Arolygydd y Ffyrdd. / *Nothing has been done about the complaint sent in about the condition of the road down to Pantyresgair, Penuwch, SY25 6RA that had been passed to the Road Inspector.*
- Hefyd, dim wedi'u wneud am y diffyg llinellau gwyn ar groesffordd Glanwern, Penuwch, SY25 6RA. / *Also nothing had been done about the missing white lines on the Glanwern crossroads, Penuwch, SY25 6RA.*
- Nodwyd bod presenoldeb y sweeper wedi bod yn ambell i fan yn y gymuned / *It was noted that presence of the sweeper has been at certain locations in the community.*
- Soniwyd nad oedd oddi amgylch y manhole tu allan i'r Neuadd wedi'u drwsio hyd yma / *It was mentioned that the area around the manhole outside the Hall has not been repaired to date.*
- Manhole ar gyffordd Glanwern, Penuwch lan am Llyn Fanod wedi blocio / *Manhole at the junction of Glanwern, Penuwch towards Llyn Fanod is blocked*
- Soniwyd bod llinell ffôn yn hongian lawr gyferbyn a Penlan, Penuwch, SY25 6RA / *It was mentioned that a telephone line is hanging down opposite Penlan, Penuwch, SY25 6RA*

Cyfrifon/Accounts

- Cyflog Clerc – Rhagfyr & Ionawr £268.68 – *Clerk salary for December & January*
- HMRC – Tax £4.00
- Cynnig/Proposed – Cyng/Cllr Myrddin James; Eiliwyd/Seconded – Cyng/Cllr Gerwyn Ebenezer

Gohebiaeth/Correspondence

Dim i'w gofnodi / *Nothing to report*

Cyngor Sir Ceredigion County Council

Dim i'w gofnodi / *Nothing to report*

Prosiect Waun Maenllwyd Project

Dim i'w gofnodi / *Nothing to report*

Caru'ch Cymuned 2025 Love Ceredigion

Yn dilyn noson llwyddiannus, derbyniwyd tystysgrif a plac am ein llwyddiant. Cytunwyd i arddangos y plac yn y Siop leol i ddechrau, Cyng Daniel Thomas i drefnu / *Following a successful evening, a certificate and a plaque were received for our achievement. It was agreed to display the plaque in the local shop to start with, Cllr Daniel Thomas to arrange.*

Un Llais Cymru/One Voice Wales

Mynychodd y Cadeirydd a'r Clerc, gyfarfod ar-lein ar sut i ddelio efo'r trefniadau i uno Cyngor Cymuned Llangeitho a Chyngor Cymuned Llanddewi Bref. Clerc i gysylltu a Un Llais Cymru am gymorth a'r posibilrwydd o gynnal cyfarfod ar-lein rhwng Un Llais Cymru, Cyngor Cymuned Llangeitho a Chyngor Cymuned Llanddewi Brefi / *The Chair and the Clerk attended an online meeting on how to handle the arrangements to merge Llangeitho Community Council and Llanddewi Brefi Community Council. The Clerk to contact One Voice Wales for assistance and the possibility of holding an on-line meeting between One Voice Wales, Llangeitho Community Council, and Llanddewi Brefi Community Council.*

Prosiectau 2026-27 Projects

- Trafodwyd ambell i brosiect dros y flwyddyn i ddod ond gofynnir i'r Cyngorwyr i dal feddwl am brosiectau eraill / *A few projects for the coming year were discussed, but Councillors are asked to continue thinking about other projects*
- Derbyniwyd cais oddi wrth y Clerc i gael iawndal am ddefnyddio hargraffydd personol y clerc, trwy brynu argraffydd newydd iddi drwy'r Cyngor Cymuned – Clerc i ymchwilio printyddion newydd / *An application was received from the Clerk for reimbursement for using the clerk's personal printer, by purchasing a new printer for her through the Community Council – Clerk to search for a suitable printer.*

Hen Gysgodfan Bws Tro Pair / Old Bus Shelter Tro Pair

Mr & Mrs Ken Gutteridge yn fodlon ein cynorthwyo i dacluso/glanhau/chwynnu/paentio/clirio/ail-drefnu'r cyfan sydd yn yr hen gysgodfan bws. Trafodwyd y mater a chytunwyd iddynt ymgymrid â'r gwaith o dan arolygaeth y Cyngor Cymuned. Cyng Myrddin James yn fodlon dod a treilar wrth ymyl yr adeilad i storio'r llyfrau dros dro tra bod y gwaith glanhau yn mynd yn ei flaen. Cyngorwyr i fynychu os y medrant / *Mr & Mrs Ken Gutteridge are happy to help us tidy/clean/weed/paint/clear/reorganize everything in the old bus shelter. The matter was discussed and it was agreed that they would undertake the work under the supervision of the*

Community Council. Councillor Cllr Myrddin James is happy to bring a trailer next to the building to temporarily store the books while the cleaning work is carried out. Councillors to assist if they are able.

Adroddiad Bioamrywiaeth – ‘Trosolwg Adran 6 – Adroddiad Adran 6 Model / Section 6 overview – Model Section 6 Report

Clerc wedi mynychu sesiwn arall i drafod sut mae'r gwaith yn mynd i gael ei wneud ar gyfer y dair blynedd nesaf. Gofynnir i'r Cynghorwyr i feddwl am syniadau i'w hystyried / A clerk attended another session to discuss how the work is going to be done over the next three years. Councillors are asked to think of ideas to consider

Model Reolau Sefydlog / Standing Orders

Copi dwy ieithog wedi'u gylchredeg. Dim sylwadau/newidiadau. Cytunwyd i'w dderbyn / A bilingual copy had been circulated. No comments/changes. Agreed to be accepted

Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

- *Soniwyd bod Capel Penuwch yn cau'n swyddogol ar 28ain Chwefror 2026. Gweddillion o'r arian yn cael eu ddsbarthu o fewn y gymuned ee Mainc & Bwrdd Gwybodaeth / It was mentioned that Penuwch Chapel will officially close on 28th February 2026. The remaining funds will be distributed within the community, eg. Bench & Information Board*
- *Angen presenoldeb y sweeper i fynny rhiw Bronaeron ac yn Llanbadarn Odwyn / The presence of the sweeper is needed to go up Bronaeron Hill and in Llanbadarn Odwyn*
- *Nifer o dyllau yn y ffordd oddi amgylch Parcrydderch / Felinfawr / Capel Betws Leucu / Number of potholes in the road around Parcrydderch / Felinfawr / Capel Betws Leucu*
- *Angen glanhau'r llwybrau sydd yn mynwent Capel Llwynpiod / Need to clean the paths in Llwynpiod Chapel cemetery.*
- *Clerc i gysylltu a Chyngor Sir Ceredigion yn gofyn am bocs grit i'w leoli oddi amgylch Ysgol Rhoshelyg Campws Llangeitho / Clerk to contact Ceredigion County Council to request a grit box to be placed around Rhoshelyg School Llangeitho Campus*
- *Soniwyd bod yna deulu yn byw yn barhaol, mewn carafanau symudol ar ddaear gyferbyn a Penlon, Stags Head / It was mentioned that there is a family living permanently in mobile caravans on land opposite Penlon, Heol Llanio, Stags Head.*
- *Soniwyd bod yna goeden wedi pwdri ac mewn perygl o gwmpo yn y dyfodol agos ar waelog rhiw Bontcoy / It was mentioned that there is a tree that has rotted and is in danger of falling in the near future on the bottom of Bontcoy hill.*
- *Estynnwyd llongyfarchiadau oddi wrth Cyng Rhodri Evans i'r Cyngor Cymuned ar ei llwyddiant yn cystadlaeth Caru'ch Cymuned 2025 / Congratulations were extended from Cllr Rhodri Evans to the Community Council on their success in the Caru'ch Cymuned 2025 competition*
- *Dywedwyd bod gwastraffu anghyfreithlon yn troi'n fwy o broblem o fewn y gymuned / It was mentioned that fly-tipping was getting more of an issue within the community*

Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/Date & location of next meeting

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Lun 2ail o Fawrth 2026 yn Neuadd Jiwibili Llangeithio am 8 o'r gloch.

The next meeting will be held at Jiwibili Hall, Llangeitho on Monday 2nd March 2026 at 8.00 o'clock.